

Gwers 21 – Jona'n rhedeg i ffwrdd

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Jona 1:1 – 3:10

Yr oedd Jona'n cael ei anfon i un o'r manau peryclaf yn y Dwyrain Canol, Ninefe, yn agos i Mosul, Irac heddiw. Y mae Irac yn beryglus hyd heddiw, yn enwedig o gwmpas Mosul ond am wahanol resymau efallai. Diben anfon Jona i Ninefe, meddai Duw, oedd llefaru yn ei herbyn 'oherwydd daeth ei drygioni i'm sylw' (Jona 1:2). Yr oedd Jona i fynd i ddinas gaerog, a mwyaf pwerus y dydd, a dweud wrth bobl dreisgar ac ymosodol nad oedd Duw yn hoffi eu ffordd o fyw. Ymateb Jona oedd ffoi cyn belled ag oedd yn bosibl iddo.

Y mae Jona felly yn ceisio ffoi oddi wrth Dduw. Nid oedd hynny'n beth doeth i'w wneud oherwydd golygai redeg i ffwrdd oddi wrth rywun sydd yn bresennol ymhob man. Fel yn hanes Adda yng ngardd Eden a Jacob ym Methel, roedd Duw a'i lygaid ar Jona bob cam a da o beth hynny, oherwydd cafodd y proffwyd ei hun ar long mewn storm.

I geisio arbed criw y llong, taflwyd y gêr oddi ar y llong i'r môr, ond nid oedd hynny'n ddigon. Penderfynodd y criw fwrw coelbren er mwyn canfod pwy oedd yn gyfrifol am eu hargyfwng. Syrthiodd y coelbren ar Jona ac er eu bod yn anfodlon ar y cychwyn, ar orchymyn Jona, bwriasant ef i'r môr. Ond yr oedd Duw gyda'i was a threfnodd i bysgodyn mawr ei lyncu. Mewn gweddi o fol y pysgodyn, mae'n cydnabod mai Duw sydd wedi ymyrryd ac wedi trefnu ffordd i'w arbed o'r môr, ond nid oes arwydd o edifeirwch yn ei eiriau.

Ymhen amser, trefnodd Duw i'r pysgodyn chwydu Jona ar y lan. Llefarrowd Duw wrth Jona am yr eildro a'i wysio i fynd i Ninefe. Y tro hwn ufuddhaodd Jona a chyhoeddi wrth drigolion y ddinas, 'Ymhen deugain diwrnod fe ddymchwelir Ninefe'. Y syndod yw bod y bobl wedi gwrando arno, a chyhoedda'r brenin gyfnod o ymryd a diwrnod o edifeirwch a gweddi. 'Bydded iddynt wisgo sachliain a galw yn daer ar Dduw. Bydded i bob un droi oddi wrth ei ffordd ddrygionus.... Pwy a wŷr na fydd Duw yn edifarhau eto, ac yn troi oddi wrth ei ddiog mawr, fel na'n difethir ni?' (Jona 3:9).

Jona

Brodor o Gath-hepher, tref rhyw awr o daith o Nasareth. Dywed traddodiad Iddewig mai mab y wraig weddw o Sareffath, a godwyd o farw'n fyw gan Elias, oedd Jona. Ond nid oes tystiolaeth sicr i'r gred. Un cyfeiriad sydd at broffwyd a elwir Jona (2 Bren. 14:25). Fe'i cynhwysir ymhlith y proffwydi, er dim ond proffwydoliaeth un llinell sydd yn y llyfr – 'Ymhen deugain diwrnod fe ddymchwelir Ninefe' (Jona 3: 4). Un o gyfoeswyr Jona oedd Amos.

Ninefe


Prifddinas Assyria a ddinistriwyd gan fyddin Babilon. Nodir y ddinas heddiw gan dwmpathau yn agos i Mosul, yn Irac .

Tarsis

Cyfeirir at longau o Tarsis, e.e dywedir fod gan Solomon 'longau Tarsis'. Gall fod yn ardal yn ffinio â Môr y Canoldir, yn gyfoethog mewn adnoddau megis coed, aur, arian a haearn. Mae'n amlwg fod Tarsis yn ddigon pell o Ninefe ac y byddai Jona'n teimlo'n ddiogel yno.

Pysgodyn

Nid yw'r Beibl yn sôn am forfil fel y tybir yn aml. Roedd Duw'n aml yn gwneud rhywbeth annisgwyl.



Ceisiodd y proffwyd Jona redeg i ffwrdd oddi wrth Dduw. Yna, cafodd ei daflu i'r môr.

Mae'r pysgodyn mawr ar fin llyncu Jona. Fedri di ddod o hyd i'r deuddeg pysgodyn bach sy'n cuddio yn y llun yma?
Cei ddarllen y stori hon yn Jona 1:1-17.

Gwers 21 – Jona yn rhedeg i ffwrdd

Jona | Jona 1:1 – 3:10

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 90



Gwers 21

Jona yn rhedeg i ffwrdd

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN /DROS 7 oed

Jona yn rhedeg i ffwrdd tud 90

BEIBL LLIW STORI DUW

Jona yn rhedeg i ffwrdd tud 165

BEIBL BACH STORI DUW

Negesydd Duw tud 160

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Jona'n cwyno tud 66

BEIBL LLIW Y PLANT

Jona a'r pysgodyn mawr tud 174

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Jona tud 108

BEIBL BACH I BLANT

Y pysgodyn anferth tud 264

Y BEIBL I BLANT MEWN 365 STORIÄU

Stori Jona tud 266

BEIBL LLIW Y TEULU

Negesydd Duw tud 99

I Ddechrau ...

Gêm 'Dec y llong'

Mae'r plant yn sefyll mewn rhes, un tu ôl y llall, yng nghanol yr ystafell – dyma'r "dec canol." Mae'r wal i'r chwith yn cael ei alw'n "dec uchaf", a'r wal i'r dde yn "dec isaf." Mae angen un person i fod yn "gaptlen." Mae'r captlen yn sefyll o flaen y "morwyr" ac yn galw cyfarwyddiadau. Pan mae'r captlen yn galw "dec uchaf" dylai'r morwyr redeg at y dec uchaf ayyb. Bydd yr olaf i gyrraedd allan o'r gêm a dylent aros yno nes bydd y captlen yn galw "mae'r captlen yn dod", pan fydd rhaid i bawb redeg yn ôl i'r dec canol a salwtio'r captlen, sydd yn cerdded ar hyd y rhes yn cynnal "archwiliad" o'i griw. Gallwch ychwanegu cyfarwyddiadau eraill, fel dringo'r rhaffau, sgwrio'r dec, storm neu beth bynnag mae'r plant yn ei awgrymu.

Ar ôl chwarae am ychydig gofynnwch i'r plant am eu profiadau o fod ar long neu gwch.

Esboniwch fod ein hanes gwir o'r Beibl heddiw am berson a geisiodd guddio oddi wrth Dduw mewn cwch.

Helpa Drysor

Paratowch helpa drysor syml o flaen llaw a gosodwch y cliwiau yn eu lle cyn i'r plant gyrraedd. Gellir defnyddio lluniau neu gliwiau ysgrifenedig er mwyn arwain y plant at ryw 'drysor.'

Trafodwch yr achlysuron y mae'r plant wedi cael i ddilyn helpa drysor. Pwysleiswch ei bod hi'n bwysig dilyn y cyfarwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r trysor.

Yn stori Jona, cafodd Jona gyfarwyddiadau clir gan Dduw ond penderfynodd Jona eu hanwybyddu. Y 'trysor' oedd gan Dduw mewn golwg oedd bod pobl Ninefe yn dod i'w garu ac roedd Duw am i Jona gael rhan yn hyn.

Yr Hanes ...

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau yn y Rhestr Adnoddau ac wedyn, defnyddiwch y syniad canlynol i atgyfnerthu a chymhwyso'r stori. Neu, defnyddiwch y syniad canlynol wrth i chi adrodd yr hanes yn eich geiriau eich hun.

Stori gyda pharasiwt (Jona 1 a 2)

Yr hanes gan ddefnyddio parasiwt.

Dechreuwch gyda'r plant yn eistedd o amgylch y parasiwt gyda'u coesau o dan y parasiwt. Penodwch un o'r plant i fod yn Jona.

Dyma rhai awgrymiadau am ddefnyddio'r parasiwt yn ystod yr hanes (teimlwch yn rhydd i ychwanegu rhagor o symudiadau!).

Jona yn rhedeg i'r porthladd i chwilio am gwch: Gofynnwch i bawb godi, i neidio ar ben y parasiwt ac eistedd i lawr, gyda Jona yn gorwedd yn y canol.

Y Storm: Gofynnwch i'r plant i sefyll oddi ar y parasiwt, ei ddal, a'i godi ac yna i lawr, gan wneud sŵn y gwynt a'r glaw a'r tonnau. Cadwch Jona yn gorwedd yn y canol.

Morwr yn deffro Jona: Gofynnwch i un o'r plant i gamu ar y parasiwt i 'ddeffro' Jona.

Jona'n cael ei lyncu gan y pysgodyn: Mae pawb yn codi'r parasiwt dros ei b/phen, ac yn eistedd ar ymyl y parasiwt, h.y. mae pawb nawr o dan y parasiwt. Gofynnwch i Jona i eistedd yn y canol, fel petai yn eistedd ym mol y pysgodyn!

Ym mol y pysgodyn am dri diwrnod a thair noson. Gadewch i'r plant gynnig eu syniadau.

Y pysgodyn yn poeri Jona allan: Pawb i godi, sefyll a dal y parasiwt.

Jona'n pregethu yn Ninefe: Mae Jona yn cerdded o amgylch y parasiwt unwaith eto.

Cymhwysio

Gweddi Jona

Darllenwch weddi Jona o Jona 2. Trafodwch y gwirioneddau mae Jona'n eu datgan yn ei weddi gan gynnwys y ffordd y mae Duw yn gwybod popeth amdanom, yn ein gweld, yn ein clywed a hyd yn oed yn gwybod beth sydd ar ein meddwl.

Rhowch gyfle i'r plant i ddarllen dros y weddi eto eu hunain.

Sut mae'r plant yn teimlo wrth feddwl bod Duw yn gwybod popeth amdanynt?

Beth ddylen ni wneud os ydym yn ymwybodol ein bod wedi pechu?

Treuliwch amser yn gweddio gyda'r plant gan roi cyfle iddynt i weddio'n dawel neu ar goedd yn eu tro.

Adnod i ddysgu

Jona 4:2b - 'Gwyddwn dy fod yn Dduw graslon a thrugarog, araf i ddigio, mawr o dosturi ...'

Rhannwch y plant yn dimoedd. O flaen llaw, ysgrifennwch eiriau'r adnod ar 8 siâp pysgodyn, gydag un set o eiriau ar gyfer pob tîm. Hefyd, bydd angen papur newydd ar gyfer pob tîm.

Gosodwch y geiriau ar un ochr yr ystafell. Mae aelodau'r tîm yn cymryd tro i redeg/sgipio/hercio at y geiriau, i osod un pysgodyn ar y llawr ac i ddefnyddio'r papur newydd i 'fflapio'r' pysgodyn yn ôl i'w tîm. Ar ôl casglu'r 8 pysgodyn, dylai'r timoedd eu gosod mewn trefn a cheisio dysgu'r adnod gyda'i gilydd.

Gwahoddwch bob tîm i adrodd yr adnod.

Esboniwch y geiriau 'graslon, trugarog, digio a thosturi' wrth y plant.

Ceisiwch arwain y plant i ystyried pa mor rhyfeddol yw ein Duw ni, ei fod yn barod i ddangos trugaredd inni er nad ydym yn haeddu hyn.

Gweddi

Dros rai sy'n rhannu'r newyddion da

Bydd angen Atlas neu glôb arnoch.

Yn gyntaf, gweddiwch dros bobl eich ardal sy'n rhannu'r newyddion da gyda phobl, e.e. y Gweinidog, yr athrawon Ysgol Sul.

Wedyn, meddylwch am brosiectau sy'n adnabyddus i chi, e.e. efallai eich bod wedi casglu arian at waith Cymorth Cristnogol neu Tearfund.

Yn olaf, gadewch i'r plant i chwilio am wlad ar y glôb/yn yr atlas, a gweddiwch dros Gristnogion sy'n byw yn y wlad honno yn eu hymdrechion i sôn wrth eraill am eu ffydd yn Iesu. Efallai yr hoffech gynorthwyo'r plant i chwilio am wledydd sydd yn y newyddion ar hyn o bryd.

Cân

'Sori Dduw', Tyrd i Ddathlu, rhif 29.

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed Jona'n dysgu gwers tud. 88, Jona'n ufuddhau i Dduw tud. 90

Gwerslyrau Golau ar y Gair

Jona; Proffwyd anfodlon

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C - Jona

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 30: Jona'r rhedeg i ffwrdd

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 318

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 30: Y Pysgodyn Anferth

Llyfrau Stori

Cyfres Fi Hefyd - Dydw i ddim eisiau

Hwyl Jigso - Jona a'r Morfil

Cyfres Pysgodyn Bach - Jona ym mol y morfil

Llyfr Stensil Anifeiliaid y Beibl - Jona

